Cerddor Ifanc
GREGYNOG
Young Musician

# GREGYNOG YOUNG MUSICIAN OF THE YEAR - 2018

I am delighted to advise that entries are now open for the above title.
The competition is open to any student who plays an orchestral instrument - including the piano, classical guitar, recorder, saxophone, brass band instruments or percussion. There is no lower age limit, but applicants' date of birth should not be before 31st August 1999.
The final will take the form of a competition between five category winners who during the day, will have been awarded the following titles:

- Gregynog Young String Player of the Year
- Gregynog Young Pianist of the Year
- Gregynog Young Woodwind Player of the Year
- Gregynog Young Brass Player of the Year
- Gregynog Young Harpist / Guitarist / Percussionist of the Year

These category winners will be selected from performances given during the morning and afternoon semi-final sessions. At the evening concert all five finalists will receive a certificate and **£500.** The overall winner will be awarded the title "Gregynog Young Musician of the Year" and will receive a further **£2,500** - giving him or her a total of **£3,000** in prize money.

There will be an additional award presented to a young accompanist under the age of 23 years, who in the opinion of the adjudicators is deserving of the **Chairman's Trophy** and a prize of **£400.**

I would be grateful if you could pass on this application form, or a copy of it, to your music department and encourage students to participate. If you need any further information do not hesitate to contact the Secretary using any of the contact details below.

Yours faithfully



**Dr Gareth Jenkins**
**Chairman –** Gregynog Young Musician Competition

Secretary: Mrs Lesley Geary, Tel: 07598 791017, Email: sec@gregynogymc.co.uk

# ENTRY FORM

Full name ……...M ☐ F ☐ *(Tick ✓)*

Home address ……..

Telephone no ……mobile no……..

Email ……. date of birth …….

School attended and address……

…….

Instrument ……..

Titles of music recorded on your entry CD/MP3, together with names of composers

……

……

If you are chosen to perform in the semi- final and final stages, what pieces (with names of composers) do you anticipate playing? (final choice can be made nearer the competition date)

……

……

……

Name of accompanist ……

Does your accompanist wish to compete for The Gregynog Young Accompanist Award? (See Rules & Conditions no.7.) (Please tick) ☐ Yes ☐ No

Do you wish to use the services of the Official Accompanist?
(Please tick) ☐ Yes ☐ No

Applicants should submit this form, together with:

• CD/MP3 Recording of two contrasting pieces *(10 minutes total for the semi-final round)*
• £20 Entry Fee *(Cheque made payable to "Friends of Gregynog Young Musicians")*
• Copy of Grade 8 Certificate ~ or letter of endorsement from your teacher.

These must be received no later than **Sunday 18th February 2018.**

Candidates' semi-final and final programmes must include the same pieces in both with an additional piece or pieces for their 20 minute final programme. (See Rules and Conditions, no.14)

**Address to send to:** Mrs Lesley Geary, Llys Celyn, Llanwnog, Caersws, Powys, SY17 5JG

The CDs/MP3's will be examined by a panel of adjudicators. A number of successful competitors will then be selected to attend the semi-final round which will take place on the morning and afternoon of **21st April 2018 at Gregynog Hall, Tregynon, Newtown SY16 3PW.** Competitors must provide their own instrument and own accompanist where necessary. There will be a concert quality piano at the venue.

For those competitors who are unable to bring their own accompanist, an official accompanist is available for rehearsal and performance in the morning, afternoon and for the evening final competition.
If you wish to avail yourself of this service there will be a nominal charge of £50.

Adjudication will take place during the day of **21st April 2018** until five category winners have been chosen to perform at that evening's concert final. This will commence at **7.00pm.**

Awards will be presented at the end of the concert.

**How did you hear about us?** Website, school, music magazine, teacher (*please tick)*

*** * * * * * * * * * * ***

## RULES AND CONDITIONS

**1.** Gregynog Young Musician Competition Committee is the organiser of the competition.

**2.** There is no lower age limit for competitors but date of birth should not be before 31st August 1999.

**3.** Competitors may play any orchestral instrument including piano, classical guitar, recorder, saxophone, brass band instruments or percussion.

**4.** Completed entry forms should be returned to: **Mrs Lesley Geary, Llys Celyn, Llanwnog, Caersws, Powys, SY17 5JG**, together with a photocopy of their Grade 8 certificate, no later than **Sunday 18th February 2018.**
If a candidate does not possess a Grade 8 certificate, his or her suitability and equivalence for this competition must be endorsed by his/her music teacher or musical authority. A recent CD/MP3 recording of up to ten minutes of music must be included and is non-returnable. It is incumbent on the candidate to ensure that their CD plays on a standard CD player. Candidates that submit an unplayable CD will not receive a refund of their entry fee.
An entry fee of £20 must be enclosed, (cheque made payable to: "Friends of Gregynog Young Musicians").

**5.** Competitors will not be required to play from memory - the use of music will not incur penalties.

**6.** Competitors must provide their own instruments and can utilise their own accompanist. For those competitors who wish to avail themselves of the official accompanist, there will be a £50 fee. Those using this service must be prepared to:
(a) send copies of their proposed music to the official accompanist to allow him/her time to practise the pieces,
(b) must make themselves available for suitable rehearsal time prior to their semi-final performance.

**7.** To be eligible for the “Gregynog Young Accompanist Prize”, candidates must be under the age of 23 years on **21st April 2018**.

**8.** Sheet music must be original; competitors must provide a copy for the adjudicators.

**9.** Applicants may enter one instrument only.

**10.** The organisers reserve the right to:

a) record any part of the competition,
b) make a video or other films of any part of the competition,
c) broadcast any part of the competition.

No broadcast fees will be paid by the organisers to the individuals for any performance relating to this competition.

**11.** The decision of the jury will be final.

**12.** Entry will be conditional on acceptance of the rules and conditions in this entry form. In the event of any dispute arising out of the rules and conditions, the decision of the organisers will be final.

**13.** The overall winner will be excluded from entering this annual competition again.

**14.** Candidates’ semi-final and final programmes must include the same pieces in both, with an additional piece or pieces in their final programme.

**15. Semi-Final Round:** The semi-final round for those chosen to attend will be held at Gregynog from 9.00am on **Saturday 21st April 2018**. Competitors will be invited to play for no longer than 12 minutes including breaks between movements and pieces. Credit will be given for a contrasting programme. Five successful competitors will be chosen to participate in The Final.

**16. The Final: Saturday 21st April 2018** at 7.00pm. The five category winners selected will be invited to play a programme not exceeding 20 minutes.

* * * * *

Cerddor Ifanc
GREGYNOG
Young Musician

# CERDDOR IFANC Y FLWYDDYN - GREGYNOG 2018

Mae'n bleser gennyf gyhoeddi fod y gystadleuaeth uchod yn awr ar agor i dderbyn ceisiadau.

Mae'r gystadleuaeth yn agored i unrhyw fyfyriwr sy'n chwarae offeryn cerdd - gan gynnwys y piano, gitâr glasurol, recorder, sacsoffon, offerynnau band pres neu offer taro. Does dim rhaid i'r cystadleuwyr fod dros unrhyw oedran penodol, ond ni ddylai dyddiad eu geni fod cyn y 31ain Awst 1999.
Cynhelir y cymal terfynol ar ffurf cystadleuaeth rhwng yr enillwyr o'r pum categori a fydd yn ystod y dydd wedi ennill y teitlau canlynol:

- Chwaraeydd Ifanc y Flwyddyn Gregynog - Offerynnau Llinynnol
- Chwaraeydd Ifanc y Flwyddyn Gregynog - Categori'r Piano
- Chwaraeydd Ifanc y Flwyddyn Gregynog - Offerynnau Chwythbrennol
- Chwaraeydd Ifanc y Flwyddyn Gregynog - Offerynnau Pres
- Chwaraeydd Ifanc y Flwyddyn Gregynog - Telyn / Gitâr / Offerynnau Taro

Bydd yr enillwyr o fewn y categorïau uchod wedi eu dewis o blith perfformiadau'r sesiynau cynderfynol gydol y bore a'r prynhawn. Ar ddiwedd y cyngerdd hwyrol bydd pob un o'r pum cystadleuydd terfynol yn derbyn tystysgrif a **£500**. Anrhydeddir y prif enillydd o blith y pump ohonynt hwy gyda'r teitl "Cerddor Ifanc y Flwyddyn Gregynog", yn ogystal â **£2,500** ychwanegol - a fydd yn golygu cyfanswm gwobr ariannol o **£3,000** iddo ef / iddi hi.

Hefyd, cyflwynir gwobr ychwanegol i gyfeilydd ifanc dan dair ar hugain oed a fydd ym marn y beirniaid yn haeddu derbyn **Tlws y Cadeirydd** ynghyd â gwobr o **£400**.

Buaswn yn ddiolchgar pe gallech gyflwyno'r ffurflen ymgeisio hon, neu gopi ohoni, i'ch Adran Gerdd; a phe byddech chi hefyd yn annog eich myfyrwyr i gymryd rhan yn y gystadleuaeth arbennig hon. Os hoffech dderbyn unrhyw fanylion pellach, teimlwch yn rhydd i gysylltu â'r Ysgrifennydd; gan ddefnyddio unrhyw un o'r manylion cysylltu a ddyfynnir isod.

Yn gywir

**Dr Gareth Jenkins**
**Cadeirydd - Cystadleuaeth Cerddor Ifanc Gregynog**

Ysgrifenniad: Mrs Lesley Geary, Ffôn: 07598 791017, E-bost: sec@gregynogymc.co.uk

# FFURFLEN YMGEISIO

(*Ticiwch* ✓)

Enw llawn .....☐ G ☐ B

Cyfeiriad cartref:.....

.....

Rhif ffôn (cartref) .....Rhif ffôn (symudol) .....

Cyfeiriad e-bost .....Dyddiad geni.....

Ysgol yr ymgeisydd a chyfeiriad yr ysgol.....

.....

Offeryn cerdd .....

Teitlau'r darnau o gerddoriaeth a recordiwyd ar eich Cryno Ddisg/MP3, ynghyd â'r cyfansoddwyr.

.....

.....

Os cewch eich dewis i berfformio yn y cymalau cynderfynol a therfynol, pa ddarnau (gydag enwau'r cyfansoddwyr) ydych chi'n bwriadu eu perfformio? (gellir cadarnhau'ch dewis terfynol yn agosach at ddyddiad y gystadleuaeth).

.....

.....

Enw eich cyfeilydd .....

A ydy eich cyfeilydd yn dymuno cystadlu am Wobr Cyfeilydd Ifanc Gregynog? (*Ticiwch* ✓) ☐ YDY ☐ NAG YDY
(Gweler rhif 7 yn y Rheolau ac Amodau)

A ydych chi'n dymuno defnyddio gwasanaeth y cyfeilydd swyddogol? (*Ticiwch* ✓) ☐ YDW ☐ NAG YDW

* * * * *

Dylai ymgeiswyr anfon y ffurflen hon wedi ei llenwi, ynghyd â'r canlynol:

- Recordiad ar MP3/Cryno Ddisg o'r ymgeisydd yn chwarae dau ddarn gwrthgyferbyniol o gerddoriaeth *(cyfanswm o ddeng munud - ar gyfer y cymal cynderfynol)*,
- Ffi gystadlu o £20 *(taler sieciau i 'Cyfeillion Cerddorion Ifainc Gregynog')*
- Llungopi o dystysgrif Gradd 8 - neu dystlythyr gan eich athro/athrawes i gadarnhau hyn.

Rhaid i'r uchod gael eu derbyn fan bellaf erbyn **dydd Sul** yr **18 eg Chwefror 2018**.

Mae'n rhaid i raglen gynderfynol a therfynol yr ymgeiswyr gynnwys yr un darnau, ynghyd â darn neu ddarnau ychwanegol i lenwi ugain munud eu rhaglen derfynol. (gweler cymal rhif 14 yn y Rheolau ac Amodau).

**Anfoner eich pecyn ymgeisio at**: Mrs Lesley Geary, Llys Celyn, Llanwnog, Caersws, SY17 5JG.

Bydd cynnwys y Cryno Ddisgiau yn cael eu hastudio gan banel o feirniaid, a fydd o ganlyniad yn dethol nifer o gystadleuwyr llwyddiannus i fynychu rownd gynderfynol a gynhelir ar fore a phrynhawn **dydd Sadwrn** y **21ain Ebrill 2018** yn **Neuadd Gregynog**, **Tregynon, Y Drenewydd, Powys. SY15 3PW**. Bydd yn ofynnol i'r cystadleuwyr ddarparu eu hofferyn cerdd hwy eu hunain, ynghyd â'u cyfeilydd yn ôl eu dymuniad. Darperir piano o ansawdd cyngherddol yn y fan a'r lle.

Yn achos cystadleuwyr na fydd yn abl i ddod â'u cyfeilydd eu hunain gyda nhw, bydd cyfeilydd swyddogol ar gael ar gyfer ymarfer a pherfformio yn y bore, yn y prynhawn a hefyd yng nghymal terfynol y gystadleuaeth yng nghyngerdd yr hwyr. Os dymunwch fanteisio ar y cyfryw ddarpariaeth, disgwylir i chi dalu ffi resymol o £50.

Bydd y beirniadu yn mynd rhagddo gydol y dydd ar y **21ain Ebrill 2018**, hyd nes y bydd enillydd ym mhob un o'r pum categori wedi eu dewis i berfformio yn y cymal cystadleuol olaf, sef yn y cyngerdd hwyrol, a fydd yn dechrau am **7.00 yr hwyr**.

Cyflwynir holl wobrwyon y gystadleuaeth ar ddiwedd achlysur y cyngerdd.

Sut y bu i chi glywed am y gystadleuaeth hon?

Gwefan / ysgol / cylchgrawn cerddorol / athro. (*Ticiwch ✓ os gwelwch yn dda*)

*** * * * ***

## RHEOLAU AC AMODAU

**1.** Trefnwyr y gystadleuaeth yw Pwyllgor Cystadleuaeth Cerddor Ifanc Gregynog.

**2.** Does dim is-drothwy oedran penodol, ond ni ddylai dyddiad geni'r cystadleuwyr fod cyn yr **31ain Awst 1999.**

**3.** Caniateir i gystadleuwyr chwarae unrhyw offeryn cerddorol - gan gynnwys piano, gitâr glasurol, recorder, sacsoffon, offeryn band pres neu offer taro.

**4.** Dylid anfon ffurflenni ymgeisio wedi eu cwblhau at: **Mrs Lesley Geary, Llys Celyn, Llanwnog, Caersws, Powys, SY17 5JG** gan amgáu llungopi o dystysgrif safon Gradd 8, erbyn y **dydd Sul yr 18 eg Chwefror 2018** fan bellaf.
Os nad yw ymgeisydd eto wedi ennill cymhwyster Gradd 8, yna dylid cynnwys ardystiad oddi wrth naill ai ei (h)athro cerdd neu awdurdod cerddorol, i gadarnhau addasrwydd cywerth ei safon ar gyfer y gystadleuaeth hon. Hefyd rhaid cynnwys MP3/Cryno Ddisg (na ddychwelir mohoni) ag arni hyd at ddeng munud o recordiad diweddar o berfformiad enghreifftiol y darpar gystadleuydd. Dyletswydd yr ymgeisydd yw sicrhau cydweddiad ei CD â fformat chwaraewyr CD cyffredin; ni ddychwelir y ffi gofrestru i ymgeiswyr a fydd wedi cyflwyno CD nas gellir gwrando ar ei chynnwys.
At hynny hefyd, rhaid amgáu'r ffi gofrestru o £20 (ar ffurf siec yn daladwy i 'Cyfeillion Cerddorion Ifainc Gregynog').

**5.** Ni fydd gofyn i'r cystadleuwyr berfformio o'u cof; ni chosbir am ddefnyddio copi sgôr o'r gerddoriaeth a chwaraeir.

**6.** Rhaid i gystadleuwyr ddarparu eu hofferyn hwy eu hunain; a gallant ddewis defnyddio eu cyfeilydd hwy eu hunain yn ôl eu dymuniad. I gystadleuwyr a fyddo'n dymuno defnyddio gwasanaeth y cyfeilydd swyddogol, bydd ffi o £50 yn daladwy; a rhaid i'r cyfryw gystadleuwyr sicrhau'r canlynol:
(a) darparu copïau sgôr o'u cerddoriaeth arfaethedig mewn da bryd i'r cyfeilydd swyddogol, er mwyn caniatáu amser iddo ef / iddi hi fedru ymarfer y darnau priodol mlaen llaw, a
(b) trefnu y byddant hwy eu hunain ar gael ar amser addas i ymarfer gyda'r cyfeilydd cyn y perfformiad cynderfynol.

**7.** I fod yn gymwys i dderbyn Gwobr Cyfeilydd Ifanc Gregynog, rhaid i ymgeiswyr fod o dan dair ar hugain oed ar y **21ain Ebrill 2018.**

**8.** Rhaid i sgôr y gwaith cerddorol a berfformir fod yn gopi gwreiddiol; a rhaid darparu copi ohono i'r beirniaid.

**9.** Ni chaniateir i ddarpar gystadleuydd gynnig ond un offeryn cerdd yn unig.

**10.** Deil y trefnwyr yr hawl i wneud y canlynol:
(a) recordio unrhyw ran o'r gystadleuaeth,
(b) cynhyrchu fideo neu gofnod electronig arall o unrhyw ran o'r gystadleuaeth,
(c) darlledu unrhyw rannau o'r gystadleuaeth.
Ni fydd y trefnwyr yn talu ffioedd darlledu i unrhyw un o'r cystadleuwyr am unrhyw berfformiad yn gysylltiedig â'r gystadleuaeth hon.

**11.** Bydd dyfarniad y beirniaid yn derfynol.

**12.** Bydd cyflwyno cais i gystadlu yn ddarostyngedig ar dderbyn y rheolau a'r amodau a ddyfynnir o fewn y ffurflen gais hon. Pe byddai anghydfod yn codi allan o'r rheolau a'r amodau hyn, yna bydd barn y trefnwyr ar y cyfryw fater yn derfynol.

**13.** Gwaherddir y prif enillydd rhag cystadlu o fewn y gystadleuaeth flynyddol hon yn y dyfodol.

**14.** Mae'n rhaid i raglenni cynderfynol a therfynol yr ymgeiswyr gynnwys yr un darnau, ynghyd â darn neu ddarnau ychwanegol yn eu rhaglen derfynol.

**15.** **Y Cymal Cynderfynol**: Yn achos y rhai a ddetholwyd i ymgyfranogi, cynhelir rownd gynderfynol y gystadleuaeth yn Neuadd Gregynog o 9.00yh ymlaen, **Sadwrn, y 21ain Ebrill 2018.** Gwahoddir y cystadleuwyr i chwarae am ddim hwy na deuddeng munud ar y mwyaf, gan gynnwys pob egwyl rhwng symudiadau a gwahanol ddarnau o gerddoriaeth. Dyfernir marciau ychwanegol am gyflwyno rhaglen gyferbyniol. Dewisir pum cystadleuydd i fynd ymlaen i'r Cymal Terfynol.

**16.** **Y Cymal Terfynol**: **Nos Sadwrn, y 21ain Ebrill 2018**, am 7.00yh. Gwahoddir enillwyr y pum categori i gyflwyno rhaglen heb fod yn hwy nag ugain munud.

* * * * *